Cyngor Sir CEREDIGION CEREDIGION County Council

Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion
Materion Ddraft
Yr Amgylchedd – Mwynau

2008

Bryan Thomas, MCIEH, FRSH

Cyfarwyddwr Adran y Gwasanaethau Amgylcheddol a Thai,	Director of Environmental Services and Housing,
Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron SA46 0PA	Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron SA46 0PA
Ffôn 01545 570881 Ffacs: 01545 572117	Tel: 01545 570881 Fax: 01545 572117

1. Materion a fydd yn cael sylw drwy'r CDLl (gan gynnwys awgrym o'r cyfleoedd a'r cyfyngiadau)

1.1.1 Mae angen nodi a diogelu adnoddau tywod a graean pwysicaf y sir ar unwaith er mwyn eu diogelu a'u gwarchod rhag cael eu sterileiddio.

1.1.2 Mae cronfeydd digonol o gerrig caled (tywodfaen) sydd wedi cael caniatâd cynllunio i'w cael i sicrhau cyflenwad yn y tymor byr, ond efallai y bydd angen diogelu mwy o dywodfaen er mwyn cynnal cyflenwad tymor hir.

1.1.3 Mae angen mwy o archwilio daearegol ac/neu Arolwg Daearegol Prydain yn cwblhau'r mapiau thematig a fydd yn nodi (ymhlith pethau eraill) adnoddau mwynau'r Sir.

1.1.4 Mae llawer o waddodion tywod a graean dyffrynnoedd yr afonydd o fewn ardaloedd a ddynodwyd yn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac/neu'n Ardaloedd Cadwraeth Arbennig.

1.1.5 Mae Safleoedd Daearegol/Geomorffaidd Pwysig Rhanbarthol (RIGS) a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) daearegol yn gyfle i astudio geoamrywiaeth y Sir ac i'r cyhoedd ei fwynhau, a dylid eu diogelu a'u hybu o ran eu potensial addysgol ac o ran eu potensial twristiaid hefyd, lle bo'n briodol.

1.1.6 Gallai fod cyfle i annog defnydd mwy effeithlon ar agregau crai a mwy o ddefnydd ar ddeunyddiau adeiladu a deunyddiau o ddymchweliadau yn lle agregau crai drwy gyfyngu ar gloddio am fwynau. Pe caniateid pyllau benthyg ar gyfer prosiectau adeiladu gallai hynny olygu defnydd llai effeithlon ar agregau crai a lleihau'r defnydd a wneid ar ddeunyddiau adeiladu a deunyddiau dymchweliadau yn lle agregau crai.

1.1.7 Mae'n anodd monitro a rheoli mynd â deunyddiau o ddaliadau amaethyddol neu o domennydd gwastraff mwyngloddiau metel heb awdurdod. Yn achos safleoedd a sefydlwyd dan Hawliau Datblygu a Ganiateir gall fod yn anodd/yn amhosib dweud na phrofi bod dim byd wedi ei wneud heb awdurdod.

1.1.8 Gallai ystyriaethau godi o ran llif y traffig wrth gloddio am fwynau.